



Briff Ymchwil
**Canllaw i bynciau iechyd a
gofal cymdeithasol**

Awdur: **Philippa Watkins**
Dyddiad: **Mai 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Philippa Watkins**

Dyddiad: **Mai 2016**

Rhif Papur: **16-007**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6328

✉ : Paul.Worthington@Cynulliad.Cymru

✉ : Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru

✉ : Amy.Clifton@Cynulliad.Cymru

✉ : Stephen.Boyce@Cynulliad.Cymru

✉ : Rebekah.James@Cynulliad.Cymru

🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Canllaw i bynciau iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar rai o'r prif ddogfennau ym maes polisi iechyd a gofal cymdeithasol, datblygiadau deddfwriaethol, ac adroddiadau/adolygiadau o bwys yn ystod tymor y Pedwerydd Cynulliad. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr; cysylltwch â thîm Iechyd a Pholisi Cymdeithasol y Gwasanaeth Ymchwil i ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Caiff y papur ei ddiweddarau bob blwyddyn o haf 2017 ymlaen.



Cynnwys

01. Trosolwg	1
Iechyd	1
Gofal cymdeithasol	1
02. Prif ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru	3
Perfformiad	3
Ansawdd a diogelwch	3
Cwynion.....	3
Y Gymraeg.....	3
Gofal iechyd trawsffiniol	4
Cyflyrau difrifol etc.....	4
Iechyd meddwl	5
Personél y lluoedd arfog.....	5
Iechyd y cyhoedd	5
Ystadegau.....	6
Gofal cymdeithasol.....	6
03. Adroddiadau / adolygiadau o bwys a gyhoeddwyd yn ystod tymor y Pedwerydd Cynulliad.....	8
04. Is-ddeddfwriaeth a basiwyd	11

1. Trosolwg

Roedd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Pedwerydd Cynulliad wedi'i gyflwyno yn ei **Rhaglen Lywodraethu**. Mae ei hymrwymiaadau allweddol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol i'w gweld yn y penodau '**Iechyd i'r 21ain Ganrif** a **Cefnogi Pobl**. Defnyddiwyd y lincs uchod i weld yr adroddiadau cynnydd blynyddol a'r archif o ddogfennau'n ymwneud â'r Rhaglen.

Iechyd

Cyhoeddwyd gweledigaeth pum mlynedd y Llywodraeth ar gyfer y GIG yng Nghymru - **Law yn Llaw at Iechyd** - yn 2011. Mae hyn yn rhoi **lle canolog i wasanaethau sylfaenol a chymunedol yn y gofal a gaiff ei ddarparu**, gan ganolbwyntio ar **wasanaethau ataliol, ansawdd y gwasanaethau a thryloywder**. Mae nifer o gynlluniau cyflenwi iechyd wedi'u cyhoeddi fel rhan o raglen Law yn Llaw at Iechyd (y rhan fwyaf yn ymwneud â chyflyrau difrifol), ac mae'r rhain wedi'u rhestru ar y tudalennau nesaf.

Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fenter o'r enw **gofal iechyd darbodus** a oedd yn seiliedig ar ddefnyddio sgiliau ac adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl, gan osgoi gofal wastraffus, a chreu perthynas gynhyrchiol rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol.

Er mwyn hybu ymhellach y broses o ddarparu gofal iechyd drwy wasanaethau gofal sylfaenol yn y gymuned yn hytrach na mewn ysbytai (gofal eilaidd), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **chynllun ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru** ym mis Chwefror 2015. Mae **cynllun gweithlu gofal sylfaenol** cysylltiedig yn esbonio'r camau i'w cymryd i ddatblygu gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy.

Thema amlwg arall dros y pum mlynedd diwethaf oedd **ad-drefnu gwasanaethau ysbytai aciwt / arbenigol**. Y nod oedd sicrhau bod gwasanaethau diogel a chynaliadwy ar gael yn y dyfodol. Cynhaliwyd **adolygiad annibynnol** dan arweiniad yr Athro Marcus Longley (Mai 2012) i ystyried y dystiolaeth am nifer, maint a dosbarthiad gwasanaethau ysbytai yng Nghymru. Datblygwyd cynigion ac ymgynghorwyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda (gorllewin Cymru), Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (gogledd Cymru) a Rhaglen De Cymru (de Cymru a de Powys).

Hefyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, roedd ymdrechion i ddarparu **gwybodaeth fwy tryloyw** am ddiogelwch cleifion a safon y gofal a gânt. Lansiodd Llywodraeth Cymru wefan o'r enw **Fy Iechyd a gofal cymdeithasol lleol** ym mis Medi 2013, sydd wedi cyflwyno amrywiaeth gynyddol o wybodaeth am berfformiad, ac sy'n awr hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ofal cymdeithasol.

Gofal cymdeithasol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn **Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: Fframwaith gweithredu** (2011). Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at y galw cynyddol am wasanaethau cymdeithasol, a hynny ar adeg pan nad yw'r rhagolygon ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn addawol iawn, ac mae'n nodi bod angen newidiadau sylfaenol. Mae'n tynnu sylw at y newidiadau demograffig yng Nghymru; mae nifer y bobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth yn cynyddu, llawer mwy o bobl yn byw ag anableddau sylweddol, nifer gynyddol o blant yn derbyn gofal ac yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Dyweddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhoi blaenoriaeth i wasanaethau integredig, yn enwedig i deuluoedd ag anghenion cymhleth, pontio rhwng gwasanaethau i blant anabl a gwasanaethau i oedolion anabl, a gwasanaethau i bobl hŷn fregus.

Pasiwyd dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth - **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** - yn ystod y tymor Pedwerydd Cynulliad.

Yng ngwaith Llywodraeth ddiwethaf Cymru, roedd y pwyslais ar osgoi darparu gwasanaethau ar wahân i blant, oedolion ag anableddau, gofalwyr a phobl hŷn ac, yn hytrach, datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar 'bobl' ac ar ganlyniadau unigol a rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i bawb. Pwysleisiwyd bod angen ymyrryd yn gynnar a defnyddio gwasanaethau ataliol yn y gymuned i ddiwallu mwy o anghenion. Ceisiwyd cryfhau gwasanaethau ailalluogi ledled Cymru, dan arweiniad y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG ar y cyd.

2. Prif ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru

Perfformiad

Tua diwedd y Pedwerydd Cynulliad, datblygodd Llywodraeth Cymru fframweithiau canlyniadau ar gyfer y GIG, iechyd y cyhoedd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn nodi canlyniadau a dangosyddion poblogaeth allweddol:

- cyhoeddwyd **fframwaith canlyniadau'r GIG** - ym mis Ebrill 2015
- cyhoeddwyd **fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd** ym mis Mawrth 2016
- cyhoeddwyd **fframwaith canlyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol** ym mis Tachwedd 2015

Mae gwefan **Fy iechyd a gofal cymdeithasol lleol** yn rhoi gwybodaeth am berfformiad yn ôl dangosyddion canlyniadau allweddol

Mae **StatsCymru** yn darparu ystod eang o ddata'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys amseroedd aros

Ansawdd a diogelwch

Rhagori – cynllun sicrhau ansawdd y GIG yng Nghymru 2012 - 2016. Mae hwn yn esbonio'r trefniadau sicrhau ansawdd a gwella.

Darparu gofal diogel, gofal tosturiol (Cyhoeddwyd 2013). Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Ymchwiliad i fethiannau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford (**adroddiad Francis**). Hefyd, mae **Gofal diogel, gofal tosturiol - fframwaith llywodraethu cenedlaethol i sicrhau gofal o safon yn GIG Cymru** yn nodi rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau i sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd.

Safonau iechyd a gofal (2015). Fframwaith safonau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r GIG a'i bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol, o safon ym mhob lleoliad gofal iechyd.

Cwynion

Unioni pethau (2011). Mae'n esbonio'r drefn o ymdrin â phryderon yn GIG Cymru. Cyhoeddwyd **canllawiau** manwl ar gyfer y GIG hefyd. Gweler hefyd:

- **Adolygiad annibynnol** gan Keith Evans o'r ffordd y mae GIG Cymru yn ymdrin â phryderon (cwynion) (Mehffin 2014).

Canllawiau i wasanaethau awdurdodau lleol ar ymdrin â chwynion a sylwadau (2014).

Trefniadau i ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol er mwyn rhoi profiad gwell i'r rhai sy'n gwneud cwyn, gan symleiddio'r broses a rhoi canllawiau cliriach i awdurdodau lleol.

Y Gymraeg

Mwy na geiriau ... - Fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol (2012). **Ymgynghoriad** ynghylch fframwaith strategol olynol, a ddaeth i ben fis Chwefror 2016.

Gofal iechyd trawsffiniol

Protocol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd trawsffiniol (2013). Caiff y trefniadau ar gyfer comisiynu gofal iechyd trawsffiniol eu nodi mewn protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Comisiynu'r GIG yn Lloegr.

Gofal iechyd trawsffiniol a symudedd cleifion - Canllawiau ar gyfer y GIG (2015). Cyngor ynghylch ymdrin â cheisiadau gan gleifion am driniaeth yng ngwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), a cheisiadau gan gleifion o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd i gael triniaeth yng Nghymru.

Cyflyrau difrifol etc.

Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau cyflawni a gyhoeddwyd yn ystod tymor y Pedwerydd Cynulliad i fod i ddod i ben yn 2016. Dywedodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru y bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau'n parhau tan 2020, ond y caiff pob cynllun ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd eu cylch presennol i adlewyrchu blaenoriaethau newydd, gan gynnwys cyflwyno dulliau darbodus o ddarparu gofal iechyd.

Gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth

 (2011)

– **Cynllun cyflawni ar gyfer Strôc** (2012). Gweler hefyd:

Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2011 ac adroddiad dilynol yn 2014)

Cynllun cyflawni ar gyfer canser Gweler hefyd:

– **Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser.**

– **Cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes** (2013)

– **Cynllun cyflawni ar gyfer clefyd y galon** (2013)

– **Cynllun cyflawni ar gyfer y rhai sy'n ddifrifol wael** (2013)

Cynllun cenedlaethol ar gyfer iechyd y geg (2013). Gweler hefyd:

– **Ymchwiliad i iechyd y geg plant yng Nghymru** gan y Pwyllgor Addysg Plant, Pobl Ifanc (cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2012)

– **Ymchwiliad i wasanaethau orthodontig yng Nghymru** gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2014)

Cynllun cyflawni ar gyfer diabetes (2013). Gweler hefyd:

– **Ymchwiliad i'r gwaith o weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru** gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2013).

– **Cynllun cyflawni ar gyfer gofal iechyd llygaid** (2013)

– **Cynllun cyflawni ar gyfer cyflyrau niwrolegol** (2014)

– **Cynllun cyflawni ar gyfer iechyd anadlol** (2014)

– **Cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yr afu** (2015)

– **Cynllun gweithredu clefydau prin** (2015). Hefyd: **strategaeth y DU ar gyfer clefydau prin**

Iechyd meddwl

Gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dementia yng Nghymru (2011)

Law yn llaw at iechyd meddwl – strategaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghymru (strategaeth 10 mlynedd a gyhoeddwyd yn 2012). Hefyd **Law yn llaw at iechyd meddwl - Cynllun cyflawni 2012-16. Ymyngkori ar Law yn llaw at iechyd meddwl – cynllun cyflawni 2016-2019** (a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2016).

Siarad â fi 2 - strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru 2015-2020 2015

Adroddiad terfynol y ddyletswydd i adolygu - asesiad ôl-ddeddfwriaethol o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (2015). Adroddiad Llywodraeth Cymru yn gwerthuso Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (un o ofynion y deddfwriaeth). Gweler hefyd:

– **Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd (Cymru) 2010** gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2015).

Law yn llaw at blant a phobl ifanc (2015). Rhaglen amlasiantaethol i wella iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc yng Nghymru (2015) Gweler hefyd:

- Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed,
- **Ymyngkoriad ar ddiweddariad o'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig i Gymru** (Daw i ben fis Mai 2016)

Personél y lluoedd arfog

Yn 2015 dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn adolygu'r **Pecyn cymorth i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru** (a gyhoeddwyd gyntaf 2011), a oedd yn amlinellu ymrwymadau newydd a pharhaus i gymuned y lluoedd arfog ar faterion datganoledig. Mae Adran 4 yn ymwneud â gofal iechyd.

Sefydlwyd gwasanaeth **Cyn-filwyr 'GIG Cymru** i wella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae pob bwrdd iechyd lleol wedi penodi clinigwr profiadol i roi therapi i gyn-filwyr, ac mae gan y rhain diddordeb / profiad ym maes problemau iechyd (meddwl) milwrol.

Iechyd y cyhoedd

Mae **Adroddiad blynyddol diweddaraf Prif Swyddog Meddygol Cymru** (a gyhoeddwyd fis Hydref 2015) yn rhoi **trosolwg ar iechyd pobl Cymru**. Mae'n tynnu sylw at y problemau a'r camau y mae angen eu cymryd mewn rhai meysydd allweddol, gan gynnwys materion yn ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd, poblogaeth sy'n heneiddio ac ymddygiadau sy'n arwain at ffordd afiach o fyw.

Cynllun gweithredu rheoli tybaco i Gymru (2012) a'r ddogfen gysylltiedig, Cynllun cyflenwi rheoli tybaco.

Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed – strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru 2008-2018. Daeth yr **ymgyngoriad** ynghylch cynllun cyflawni ar gyfer 2016-2018 (yn ymwneud â thair blynedd olaf y strategaeth 10 mlynedd) i ben ym mis Mawrth 2016. Gweler hefyd:

- **Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd** a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mawrth 2015)

- **Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau** a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mawrth 2015)

Bil drafft lechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Ymgynghorwyd yn ei gylch yn ystod 2015)

Cynllun gweithredu iechyd a lles rhywiol ar gyfer Cymru 2010-2015. Cynllun yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella iechyd a lles rhywiol y boblogaeth, i leihau'r anghydraddoldebau iechyd rhywiol, ac i hybu trafodaeth agored am berthynas pobl â'i gilydd, rhyw, a rhywioldeb.

Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan: Yn nodi'r camau y dylai'r byrddau iechyd eu cymryd, gan weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru. Mae'r Llwybr yn nodi fframwaith pedair haen ar gyfer gwasanaethau gordewdra.

Turning the curve on childhood obesity yn Wales - Grŵp llywio atal gordewdra ymhlith plant: Adroddiad terfynol (Saesneg yn unig) yn ystyried y camau ataliol y gall holl wasanaethau cyhoeddus Cymru eu cymryd i atal gordewdra ymhlith plant

Rhaglen mesur plant Cymru. Rhaglen sy'n monitro patrymau twf plant i gasglu gwybodaeth er mwyn cynllunio gwasanaethau. Cyhoeddir **adroddiadau blynyddol**.

Gweler hefyd:

- **Ymchwiliad i ordewdra ymhlith plant** gan y Pwyllgor Addysg Plant, Pobl Ifanc (cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2014)
- **Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig** gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2014)

Ystadegau

Mae **Ystadegau Iechyd Cymru** - a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru - yn cynnwys ystod o ddata, gan gynnwys ystadegau'n ymwneud â'r boblogaeth, ffordd o fyw, salwch, meddygaeth ataliol, gwasanaethau iechyd teuluol, amseroedd aros, ystadegau am driniaeth yn yr ysbyty, gwasanaethau iechyd cymunedol, staffio, cyllid, a gofal iechyd preifat. Mae data manylach ar gael am y pynciau hyn yn y ffynonellau perthnasol (a nodir yn Ystadegau Iechyd Cymru), gan gynnwys **StatsCymru**, mae'r **Arolwg Iechyd Cymru**, ac **Iechyd Cyhoeddus Cymru**.

Gofal cymdeithasol

Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (2011)

Cynllun tair blynedd i wella gwasanaethau cymdeithasol: 2013-14 – 2015-16 Mae'n esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ac yn rhoi braslun o'r cynllun tair blynedd i'w gwella.

Strategaeth gofalwyr Cymru, a Chynllun Cyflenwi'r Strategaeth Gofalwyr 2013-16 (PDF 75KB) (Saesneg yn unig) (cyhoeddwyd yn 2013) Strategaeth Gofalwyr a Chynllun cyflenwi wedi'u diweddarau, hyd at 2016.

Fframwaith ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth (2014)

Yn 2014 lansiodd Llywodraeth Cymru **wasanaeth mabwysiadu cenedlaethol i Gymru** i gyflymu'r broses fabwysiadu.

Gweler hefyd:

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** - Yn diwygio ac yn integreiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol. Nod y Ddeddf yw rhoi mwy o ryddid i bobl wrth iddynt benderfynu ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ac i sicrhau cysondeb a safon y gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru.
- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** - Yn darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig a syml ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru.

3. Adroddiadau / adolygiadau o bwys a gyhoeddwyd yn ystod tymor y Pedwerydd Cynulliad

Mai 2012 – **Y trefniant gorau ar gyfer gwasanaethau ysbytai Cymru: adolygu'r dystiolaeth** (Saesneg yn unig). Adolygiad annibynnol, dan arweiniad Marcus Longley (Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru) yn ystyried y dystiolaeth glinigol ynghylch nifer, maint a dosbarthiad gwasanaethau ysbytai yng Nghymru.

Ebrill 2013 - **Adolygiad strategol o wasanaethau ambiwlans Cymru**. Adolygiad annibynnol dan arweiniad yr Athro Siobhan McClelland. Wrth ymateb i adolygiad McClelland, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddiwygiadau, gan gynnwys sefydlu model cyflenwi cenedlaethol yn seiliedig ar greu perthynas rhwng y byrddau iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans fel comisiynwr / darparwr, buddsoddi mewn staff rheng flaen ac uwchraddio'r fflyd ambiwlans, a datblygu cyfres o ddangosyddion 'mwy deallus' sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau cleifion. Gweler hefyd:

– Yn ystod 2015, cwblhaodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad waith ar **berfformiad gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru**

Hydref 2013 – **Shape of training review** (Saesneg yn unig). Ymchwiliad gan yr Athro David Greenaway yn ystyried diwygiadau posibl i strwythur addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion ledled y DU. Sefydlwyd Grŵp Llywio 'Shape of Training' yn ddiweddarach a oedd yn cynrychioli holl wledydd y DU, i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad ar sail consensws rhwng y pedair gwlad.

Rheoli cyflyrau cronig yng Nghymru – diweddariad. Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod yr her gynyddol sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd cynnydd mewn cyflyrau cronig.

Ebrill 2014 - **The four health systems of the United Kingdom: How do they compare?** (Saesneg yn unig) Adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield yn asesu perfformiad y GIG a safon y gofal a gaiff cleifion yn mhob un wledydd y DU ers datganoli.

Ebrill 2014 – **Adolygiad o'r broses ceisiadau cyllido cleifion unigol**. Ceisiadau cyllido cleifion unigol (IPFR) yw ceisiadau am driniaethau/meddyginiaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau a ariennir gan y GIG fel mater o drefn. Ystyriodd yr adolygiad sut y gellid gwella'r broses bresennol, gan roi pwyslais penodol ar dryloywder a chysondeb rhwng y paneli. Gweler hefyd:

– **Adolygu'r gwerthusiad o feddyginiaethau amddifad ac amddifad iawn yng Nghymru** (2013)
Yn dilyn adolygiad IPFR, gofynnwyd i Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru (AWTTC) ddatblygu proses werthuso newydd ar gyfer meddyginiaethau amddifad ac amddifad iawn (meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau meddygol prin iawn).

'**Ymddiried mewn Gofal**' (Mai 2014) Adolygiad annibynnol dan arweiniad yr Athro June Andrews o ansawdd gofal a diogelwch cleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Gweler hefyd **dogfennau'n ymwneud â'r gwaith dilynol**, sy'n cynnwys crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y grŵp llywio Ymddiried mewn Gofal, casgliadau'r adolygiad dilynol yn 2015, a chanlyniadau ymweliadau hapwirio.

Mehefin 2014 - **Adolygiad o ymdrin â phryderon (cwynion) yn GIG Cymru**. Adolygiad annibynnol Keith Evans o'r ffordd y mae GIG Cymru yn ymdrin â phryderon a chwynion. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod trefn gwyno GIG Cymru, '**Unioni pethau**', yn gadarn o ran egwyddor, ond bod amrywiaeth eang yn y modd y mae'r drefn yn gweithredu ledled Cymru. Gweler hefyd:

- **Adolygiad Ann Clwyd AS o drefn gwyno ysbytai'r GIG yn Lloegr** (Saesneg yn unig) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 (cyfeiriodd Ann Clwyd yn gyhoeddus at ohebiaeth a gafodd gan gleifion / gofalwyr o Gymru).
- **Ymchwiliad i drefn gwyno'r GIG** a gynhaliwyd yn 2014 gan y Pwyllgor Iechyd y Cynulliad a Gofal Cymdeithasol

Mehefin 2014 - **Adolygiad o ddata marwolaethau**. Adolygiad annibynnol o dan arweiniad Stephen Palmer yn ystyried y ffordd y mae GIG Cymru yn casglu ac yn defnyddio data i ddisgrifio marwolaethau mewn ysbytai yng Nghymru.

Mehefin 2014 - **Degawd o galedi yng Nghymru? Y pwysau cyllido sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru hyd at 2025/26** Adroddiad annibynnol gan Ymddiriedolaeth Nuffield yn archwilio'r pwysau y mae'r GIG yng Nghymru yn ei wynebu oherwydd costau cynyddol, a'r opsiynau ar gyfer lleihau'r bwlch cyllido.

Hydref 2014 - **Astudiaeth gofal iechyd Canolbarth Cymru**. Astudiaeth gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru yn archwilio'r posibiladau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o safon yng Nghanolbarth Cymru.

Hydref 2014 - **Talu am ofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol- yr ail adroddiad**. Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ymchwil annibynnol o'r drefn o dalu am ofal yng Nghymru yn y dyfodol i helpu i nodi a gwerthuso cyfres o ddewisiadau ar gyfer diwygio'r drefn. Hefyd **Talu am ofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol – yr adroddiad cyntaf** (Saesneg yn unig) (Ebrill 2014).

Tachwedd 2014 - **'Lle i'w alw'n gartref?' Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru** Adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar fyw mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru.

Rhagfyr 2014 - **Gwasanaethau ailalluogi yng Nghymru**. Adroddiad Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) ar wasanaethau ailalluogi.

Ionawr 2015 - **Adolygiad annibynnol o waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**. Diben yr adolygiad hwn gan Ruth Marks oedd asesu a oedd angen diwygio a gwella swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu AGIC. Yna, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad** ynghylch papur gwyrdd yn ymwneud â safonau a threfniadau llywodraethu'r GIG, gan gynnwys trefniadau i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau iechyd yn effeithiol. Y diben oedd casglu gwybodaeth ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn y maes hwn.

Mawrth 2015 - **Adolygiad o fuddsoddi mewn addysg i weithwyr iechyd proffesiynol**. Adolygiad annibynnol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y gwaith o gynllunio, datblygu a chomisiynu addysg i weithwyr iechyd proffesiynol ac o ddatblygu'r gweithlu yng Nghymru.

Mai 2015 (dyddiad cyhoeddi) - **Ymchwiliad allanol i'r pryderon a godwyd ynghylch y gofal a'r driniaeth i gleifion Ward Tawel Fan, Ysbyty Glan Clwyd - Adroddiad terfynol Medi 2014 (adroddiad Ockenden)**

Gorffennaf 2015 - **Chwilio am atebolrwydd - Adolygiad o esgeuluso pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a oedd yn rhan o Operation Jasmine (Adroddiad Flynn)**.

Ymyrraeth a dargedir: Ionawr / Chwefror 2015. Adroddiad Ann Lloyd yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014 fod angen 'ymyrraeth wedi'i dargedu' ar Fwrdd Iechyd

Prifysgol Betsi Cadwaladr a hynny o dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd y GIG. Sylwch: Rhoddwyd y Bwrdd Iechyd mewn mesurau arbennig ym mis Mehefin 2015.

Ionawr 2016 - **Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref**. Casgliadau dros dro ymchwiliad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal yn y cartref. Hefyd **Ymgynghoriad ynghylch y gweithlu gofal yn y cartref** (a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2016) yn ymwneud â gwella ansawdd gofal yn y cartref yng Nghymru.

4. Is-ddeddfwriaeth a basiwyd

Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 - Mae'n sefydlu cynllun sgorio hylendid bwyd yng Nghymru. Mae'n ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd, ac i awdurdodau lleol orfodi'r cynllun.

Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 - Mae'n cyflwyno system feddal o optio allan o'r drefn o roi organau a meinweoedd.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella llwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr, ac i sicrhau bod unrhyw gynlluniau ffyrdd newydd yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr.

Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 Mae'n disodli'r ddyletswydd ariannol flynyddol flaenorol gan ddyletswydd ariannol i reoli adnoddau dros gyfnod o dair blynedd, gan ganiatáu i'r Byrddau Iechyd gynllunio a gweithredu dros gyfnod hirach, sy'n haws ei reoli.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Mae'n diwygio ac yn integreiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol. Nod y Ddeddf yw rhoi mwy o ryddid i bobl benderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt, a sicrhau cysondeb a safon gwasanaethau ledled Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Mae'n sicrhau bod yr egwyddor 'datblygu cynaliadwy' yn rhan annatod o unrhyw ddatblygiadau. Mae'n nodi amcanion llesiant y dylai awdurdodau cyhoeddus penodol geisio'u cyflawni er mwyn gwella llesiant Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - Mae'n creu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig a syml i reoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru.

Deddf Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Mae'n ceisio sicrhau bod digon o staff nyrsio yn GIG Cymru i ddarparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon i gleifion bob amser.